



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Cyhoeddus
Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd
Cyhoeddus Cymru a Gynhaliwyd ar 21 Medi 2022, 09:30
dros Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Hefyd yn bresennol:		
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Bolton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Rhys Griffiths	(RG)	Rheolwr Perthnasoedd Busnes, y Brifysgol Agored (Cymru)
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd y Staff
Rebecca Hill	(RH)	Uwch Arbenigwr Iechyd Cyhoeddus
Angela Jones	(AJo)	Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Dros Dro
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Heather Lewis	(HL)	Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus
Collette Mason	(CM)	Rheolwr Trawsnewid, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Llywodraethu Integredig

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (Cyhoeddus) heb eu cadarnhau 21 Medi 2022
------------------------	--

Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Staff
Ymddiheuriadau		
Rob Bailey	(RB)	Cynrychiolydd y Staff
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ymchwil a Datblygu Polisi, Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Eleri Davies	(ED)	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a Phennaeth y Rhaglen HARP, Rhaglenni Diogelu Iechyd
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Ysgrifenyddiaeth		
Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cefnogi'r Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 09:30</i>		
KRIC 1/2022.09.21 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau		
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb, gan nodi bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.		
Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.		
Nododd y Pwyllgor bod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cefnogi cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Rhagfyr 2022.		
KRIC 2/2022.09.21 Datgan Buddiannau		
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb.		
KRIC 3/2022.09.21 Cyflwyniad Allanol – Y Brifysgol Agored		
Cyflwynwyd RG, y siaradwr allanol, gan IB ac eglurodd ei fod ef a TC wedi cynnal trafodaethau â phrifysgolion yng Nghymru i archwilio'r posibilrwydd o ffurfio partneriaethau strategol. Roedd y cysylltiadau â'r Brifysgol Agored wedi gwneud y cynnydd mwyaf oherwydd aliniad eu buddiannau o ran targedu pobl yn y ddau gwintel isaf o'r mynegai amddifadedd lluosog.		
Eglurodd RG mai ei rôl yn y Brifysgol oedd cydweithio â gweithleoedd, gan effeithio ar staff a'u datblygiad ac felly roedd yn edrych ar ddenu talent a datblygiad personol parhaus yn y gweithle. (Dolen i'r Cyflwyniad)		

Dyddiad: 21 Medi 2022	Fersiwn: v0.0	Tudalen: 2
------------------------------	----------------------	-------------------

Mae gan y Brifysgol Agored nifer o feysydd datblygu pobl: *Open Learn*, *Microcredentials*, Prentisiaethau Gradd a 'Learning as a Benefit,' a nodwyd fel Hyb Dysgu ICC posibl.

Roedd *Open Learn* yn adnodd dysgu ar-lein am ddim a gynigwyd gan y Brifysgol i gefnogi datblygiad personol, a dangosodd effaith bositif hefyd ar iechyd meddwl a llesiant. Roedd nifer o bynciau sy'n gysylltiedig â gwaith a dim asesiad ffurfiol ar y lefel hon, ac fe'i dyluniwyd i fod yn ganolbwynt i bobl ddysgu ac yna i symud ymlaen yn ddiweddarach i gwrs mwy ffurfiol a strwythuredig, e.e. cwrs achrededig neu radd.

Datblygwyd *Microcredentials* mewn blynyddoedd diweddar fel ffordd o wneud cyrsiau'r brifysgol yn hygyrch i bawb heb y pwysau o astudio tuag at radd. Gellid teilwra'r math hwn o gwrs i anghenion cyflogwyr unigol ac roedd yr astudiaethau'n gynt o gymharu â gradd a gellid strwythuro'r gwaith astudio o fewn amser gwaith. Roeddent yn cael eu diweddarau a'u datblygu'n barhaus i sicrhau eu gwerth a'u perthnasedd yn y gweithle. Dangosodd arolygon diweddar statws rhagoriaeth o fwy na 92% gan gyfranogwyr, a oedd wedi annog y Brifysgol i symud ymlaen gyda datblygiadau pellach o fewn y maes hwn.

Mae meysydd y cyrsiau *Microcredentials* ar hyn o bryd yn cynnwys: Gweithredu Busnes (Cyfrifyddu Ariannol ar gyfer rolau nad ydynt yn rhai ariannol, Hanfodion Cyfrifyddu Rheolaeth a Rheoli Prosiectau); TG a Digidol (Hanfodion Dysgu, Rhwydweithio, Gweithrediadau Diogelwch Seiber); Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Gweithio Ystwyth; Ansicrwydd – Arweinyddiaeth, Penderfyniadau a Gweithredu; Newid – Gweithredu a Dylunio; Rheoli Pobl); Cynaliadwyedd – Newid Hinsawdd.

Cyflwynodd RG enghreifftiau o'r hyn y gallai'r Brifysgol ei ddatblygu ar gyfer ICC:

- Roedd *Microcredentials* yn offeryn ar gyfer datblygu unigolyn yn bersonol yn ogystal ag ar gyfer y Sefydliad – ased gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio wrth recriwtio staff.
- Cynllun Graddedigion Menter (yn y Brifddinas-Ranbarth) – gellid datblygu cyrsiau sy'n cyfuno meysydd a nodwyd a'r sgiliau penodol sydd eu hangen a'u cynnwys ar hyb dysgu agored.

Pwysleisiodd IB bwysigrwydd datblygu gweithlu data a digidol, ac ystyried sut y gellid gwella hyn mewn partneriaeth â'r Brifysgol, gan gynnig cyrsiau i staff. Bu IB mewn cysylltiad ag NL a'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, a oedd yn gwbl gefnogol ynghylch archwilio'r mentrau hyn.

Diolchodd SG i RG am y cyflwyniad addysgiadol ac agorodd yr eitem i'r Pwyllgor ei thrafod. Trafododd y Pwyllgor:

- Y ffaith y gallai'r maes datblygu hwn gefnogi rhwymedigaeth y Sefydliad tuag at ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac awgrymodd y gellid

defnyddio hynny i dargedu darpar gyflogeion yn benodol, yn enwedig o ardaloedd sydd â mwy o amddifadedd.

- Cefnogaeth ar gyfer y modiwlau iechyd cyhoeddus a gweithgaredd corfforol, ac awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut y gallem uwchsgilio'r gweithlu ehangach gyda'r rhain.
- Mae'r ffaith bod yr holl gyrsiau ar gael ar-lein o bwys arbennig, sy'n alinio â dull gweithio hybrid ICC.
- Cafwyd ymholiad ynghylch a oedd unrhyw waith wyneb yn wyneb mewn perthynas ag unrhyw rai o'r modiwlau hyn; ymatebodd RG mai dim ond y cynllun prentisiaeth gradd a oedd yn cynnwys ymweliadau gan diwtoriaid ymarfer yn flaenorol. Cafodd hyn ei atal yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae wedi aros ar-lein gan mwyaf ar hyn o bryd.
- Cysylltiadau a defnydd posibl o fewn y rhaglen Llysgenhadon Ifanc i'w harchwilio.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r canlynol gael ei archwilio:

- Mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn archwilio'r bylchau sgiliau o fewn y sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys fel rhan o ddatblygiad y cynnig hwn.
- Yr angen i sicrhau bod y cyrsiau yn benodol i Gymru lle bo hynny'n briodol, gan nodi bod y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn wahanol i'r gwasanaeth yn Lloegr mewn rhai meysydd. Cytunodd RG i weithio gyda MK i sicrhau bod y cyrsiau'n cael eu gosod yng nghyd-destun Cymru.
- Argaeledd cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a sut y gellid cefnogi/archwilio hyn.
- Archwilio datblygiad cwrs Iechyd Cyhoeddus, y gallai ICC ei gefnogi wrth ddatblygu'r cynnwys er mwyn defnyddio gwybodaeth arbenigol.
- Dylai unrhyw gyrsiau a ddatblygir sicrhau cynhwysiant llawn y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Camau Gweithredu: IB

Diolchodd SG i RG am y cyflwyniad a'r drafodaeth a oedd yn archwilio sut y gallai ICC ddatblygu partneriaeth strategol â'r Brifysgol. Nododd y byddai IB yn parhau i drafod â'r Brifysgol a chydweithwyr eraill i ddatblygu cynigion fel sy'n briodol.

Gofynnodd SG a fyddai'n bosibl diweddarau'r Pwyllgor ynghylch y trafodaethau hyn, a'r rhai â Phrifysgolion eraill.

Camau gweithredu: IB

KRIC 4/2022.09.21	Sesiwn Graffu Fanwl: Sgrinio Llygaid Diabetig
--------------------------	--

Rhoddodd SG groeso i HL a CM i'r cyfarfod.

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (Cyhoeddus) heb eu cadarnhau 21 Medi 2022
------------------------	--

Rhoddodd HL a CM gyflwyniad ar waith Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) a chanlyniadau'r arolwg o'r systemau a gynhaliwyd. Amlygodd HL a CM yr hyn a ganlyn:

- Rhoddwyd model 'Darganfod' ar waith i adolygu sut y mae sgrinio llygaid diabetig yn cael ei gynnal yng Nghymru. Cyflwynwyd yr argymhellion llawn i'r Pwyllgor gyda'r papurau ac amlygwyd yr argymhellion craidd yn y cyflwyniad.
- Canfuwyd bod y system bresennol wedi dyddio, ac yn gyfyngedig o ran capasiti (oherwydd cyfyngiadau lleoliadau a salwch/trosiant staff), a hyblygrwyd y system archebu ac argaeledd hysbysiadau. Yn ogystal, roedd bron i 50% o'r cleifion presennol angen apwyntiad neu roedd eu hapwyntiad yn hwyr.
- Mae'r arolwg wedi dangos y galw am fwy o apwyntiadau hyblyg, a'r hoffter o negeseuon testun SMS i atgoffa am apwyntiadau, a'r cyfle/rhwyddineb i allu dewis lleoliad/apwyntiad gyda'r nos. Cydnabuwyd bod angen system TG newydd y gellid ei chyfuno â systemau TG eraill y GIG. Yr amcan oedd ei chyfuno'n llawn â'r systemau TG ar draws y GIG, a fyddai'n lleihau'r tasgau â llaw, ac i gyflwyno'r system ar draws yr holl wasanaethau sgrinio.
- Ar hyn o bryd, roedd Bwrdd y Rhaglen yn adolygu sut i wella gwasanaethau a phrofi methodoleg i geisio gwella'r gwasanaeth. Mae enghreifftiau diweddar wedi cynnwys clinig i bobl ifanc yn unig a chlinig ar y penwythnos a gyda'r nos i brofi ymatebion cleifion.

Roedd DESW wedi croesawu'r gefnogaeth a gynigwyd gan IB a'i dîm i weithio i gyfuno systemau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd. Hysbysodd IB y Pwyllgor fod ei dîm yn gweithio ar hyn o bryd i ddarparu system wedi'i diweddarau i'w threialu, ac roeddent hefyd yn ymgymryd â gwaith ymchwil gyda defnyddwyr i ddarparu profiad gwell iddynt.

Diolchodd MK i IB am ei fewnbwn a'i arbenigedd yn y maes hwn, a nododd y byddai'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer trawsnewidiadau yn y dyfodol.

Diolchodd SG i HL a CM am eu cyflwyniad. Trafododd y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

- Elfen gost y dull 'Darganfod', a'r angen i sicrhau effeithiolrwydd cost a gwerth am arian.
- Mae mynediad o bell drwy bobl yn defnyddio apiau i dynnu lluniau o'u llygaid yn agwedd bwysig i'w hystyried, a nodwyd bod cyfran o boblogaeth Cymru yn byw nifer o filltiroedd o ganolfan DESW. Cyngorodd HL, er bod hyn yn opsiwn, nad oedd yn cael ei archwilio ar hyn o bryd oherwydd y buddsoddiad sylweddol a fyddai ei angen. Roedd y ffocws yn cael ei roi ar ehangu darpariaeth y gwasanaeth a gynigir gan ymarferwyr offthalmig lleol i ddatblygu'r cynnig.
- Yn ychwanegol at hyn, nododd HL bod un o'r grwpiau gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar y sector cartrefi gofal. Roedd y grŵp

Dyddiad: 21 Medi 2022	Fersiwn: v0.0	Tudalen: 5
-----------------------	---------------	------------

hwn yn archwilio'r opsiwn o ymweliadau sgrinio ar y safle gan y tîm DESW i dargedu'r grŵp hwn, gan gydnabod y nifer fawr o gleifion diabetig o fewn y lleoliad hwn.

- Effaith y newidiadau i arferion gweithio ar staff. Nododd HL fod staff o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ar y Bwrdd Trawsnewid ac roedd grŵp gorchwyl a gorffen ar waith i weithio drwy unrhyw newidiadau dilynol. Awgrymodd cynrychiolwyr y staff y byddai trafodaeth gynnar â'r undebau llafur yn fuddiol, a chytunodd HL/CL i drafod hyn y tu allan i'r cyfarfod.
- Trafodwyd ap y GIG a chadarnhaodd IB nad oedd hwn wedi'i lansio yng Nghymru eto ac y byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnwys yn yr ap ar yr amser priodol.

Diolchodd SG i HL a CL am y cyflwyniad a'r drafodaeth fanwl. Gofynnodd i'r Pwyllgor gael ei ddiweddarau ynghylch y cynnydd a wnaed mewn 6-12 mis.

Camau gweithredu: IB/LB

KRIC 5/2022.09.21	Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso
KRIC 5.1/2022.09.21	Diweddariad ar Gynnydd y Strategaeth
Rhoddodd IB ddiweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd datblygiad y strategaeth Ymchwil a Gwerthuso:	
• Cynhaliwyd gwaith mapio ymchwil ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd ag ymchwil gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid. Cynhaliwyd ymarfer adolygu ac adlewyrchu hefyd ar Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso ICC 2019/25. • Roedd cwrmpas y gwaith ymchwil yn y Sefydliad yn eang; pwysleisiodd IB bwysigrwydd sicrhau ehangder ac amrywiaeth yn yr ymchwil ac i barhau i ymchwilio yn gyfartal ym mhob maes. • Amlygwyd yr angen i ddylanwadu ar gyllidwyr i gyllido gwaith â blaenoriaeth ar gyfer y Sefydliad; ochr yn ochr â'r angen i ddarparu trefniadau llywodraethu sy'n addas i'r diben y tu hwnt i rôl Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi'i alinio â gwaith y Cyngor Ymchwil Meddygol. • Nodwyd yr angen am ymgysylltiad a gwaith allgymorth gwell, er enghraifft y defnydd o dempledi cyffredinol; gwella'r wefan; cysondeb; cyfeiriadau clir; hwyluso pryderon iechyd lleol; trin data; diweddarau gwybodaeth iechyd mewn modd amserol; llunio 'cynnyrch' sydd wedi'i ddylunio i'w defnyddio gan ddefnyddwyr; tryloywder; sgysrsiau â phartneriaid; gosod mewn cyd-destun a rhagolygon ar gyfer y dyfodol. • Yr ystyriaethau ar gyfer meysydd allweddol y strategaeth ymchwil oedd: economeg iechyd; ystyried cydymffurfiaeth neu fylchau; argaeledd arbenigedd a seilwaith i ddarparu'r ymchwil sy'n berthnasol i Gymru; partneriaethau strategol; effaith ac ystyriaeth o hyd bywyd a'r grwpiau oedran sy'n cael eu hymchwilio a'r effaith ehangach. • Roedd angen gwaith pellach i egluro ein blaenoriaethau, a chryfhau ein trefniadau llywodraethiant ymchwil a'u hintegreiddio â meysydd eraill fel cyllid, cyfreithiol, llywodraethol.	

- Roedd angen datblygu seilwaith data ochr yn ochr â gwaith modelu i gefnogi timau amlddisgyblaeth.
- Nodwyd yr egwyddorion ymchwil sef: cynhwysol, aml-ddiplomyddol, dylanwadol, cydgysylltiedig ac agored yn ddiofyn.

Diolchodd SG i IB am y diweddariad a gwahoddodd sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor:

- Cafwyd sylwadau am faint o waith a wnaed yn y cynllun a ffocws dull y gwaith hwn.
- Awgrymwyd bod ymchwil i ddod â budd i'r holl boblogaeth yn faes blaenoriaeth i'w archwilio.
- Atgoffodd MK y Pwyllgor ynghylch y ddyletswydd statudol a ddiffinnir yn y gorchymyn sefydlu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru – sy'n diffinio rôl ymchwil mewn sgrinio. Awgrymwyd y dylid cynnwys hyn yn y naratif a byddai'n ganolbwynt i'r drafodaeth yn y dyfodol.
- Cytunwyd y dylid mabwysiadu dull agored i symud y gwaith ymchwil yn ei flaen; ynghyd â'r trefniadau llywodraethiant priodol.
- Nodwyd yr angen i ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth fod yn ofalus ynghylch anghenion y gymuned ehangach - Llywodraeth Leol, y Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Dylid cyfeirio at roi sylw i rolau arweinyddiaeth arbenigol, er enghraifft os ydym yn cyflogi arbenigwr byd-eang mewn maes, dylem ymroi i ddatblygu, meithrin a hyrwyddo ymchwil yn y maes hwnnw.
- Dylid profi ymchwil yn y dyfodol yn erbyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y pum ffordd o weithio, llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, i sicrhau ein bod yn dilyn y llwybr ymchwil.
- Dylid cyhoeddi unrhyw ymchwil a gyhoeddir gyda'r bwriad o gymryd camau i sicrhau bod budd amlwg o'r ymchwil yn cael ei arddangos.

Diolchodd SG i IB am y diweddariad, a nododd y byddai sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygiad y strategaeth.

Gwnaeth y Pwyllgor:

- **Dderbyn ac ystyried** y papur hwn ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, mewn perthynas â'r arolwg o Strategaeth Ymchwil ICC.
- Cytuno i **roi barn** ynghylch y themâu a'r meysydd sy'n dod i'r amlwg.

KRIC 6/2022.09.21

Y Strategaeth Ddigidol a Data

KRIC 6.1/2022.09.21

Diweddariad ar Gynnydd y Strategaeth

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan IB am ddatblygiad y Strategaeth Ddigidol a Data.

Hysbysodd IB y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi oedi cymeradwyo'i Strategaeth Ddigidol i Gymru Gyfan wrth aros am benodiad y Prif Swyddog

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (Cyhoeddus) heb eu cadarnhau 21 Medi 2022
------------------------	--

Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal. Nododd IB, yn dilyn hyn, y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru'n adolygu'r Polisi hwn i Gymru Gyfan fel sail i Strategaeth ICC.

Nododd y Pwyllgor y diweddariad.

KRIC 7/2022.09.21	Rheoli Risg
--------------------------	--------------------

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan SS ar Reoli'r Risgiau Corfforaethol a Strategol sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

- **Ystyriodd** y risgiau ar y Gofrestr Risgiau Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.
- Cymerodd **sicrwydd** fod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

KRIC 08/2022.09.21	Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor
---------------------------	---

KRIC 8.1/2022.09.21	Cofnodion, Log Gweithredu a Materion yn Codi
----------------------------	---

Derbyniodd y Pwyllgor y cofnodion a'r log gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y gellid cau un cam gweithredu yn y log gweithredu.

KRIC 8.2/2022.09.21	Rhagolwg
----------------------------	-----------------

Derbyniodd y Pwyllgor ragolwg y Pwyllgor (8.2 KRIC 2022_09_21 - Rhagolwg).

Awgrymodd IB y dylai gwrdd ag NE i drafod cydbwysedd y gwaith ymchwil a gwerthuso a'r themâu digidol a data sy'n cael eu trafod gan y Pwyllgor.

KRIC 9/2022.09.21	Materion Gweinyddol i Gloi
--------------------------	-----------------------------------

Unrhyw fusnes arall: Dim

Gwahoddwyd y Pwyllgor i gynnig adborth am y cyfarfod drwy e-bost, gan gynnwys materion a weithiodd yn dda ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 6 Rhagfyr 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45